# Cronfa Datblygu Cysyniadau

Canolfan Ymchwil Canser Cymru | Wales Cancer Research Centre

## Beth yw Cronfa Datblygu Cysyniadau WCRC?

Mae Canolfan Ymchwil Canser Cymru (WCRC) yn gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru i feithrin galluedd ymchwil, broceru cydweithio a chyflawni gweithgaredd sy'n galluogi ymchwil. Mae WCRC yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni Strategaeth Ymchwil Canser Cymru Gyfan (CReSt). Mae CReSt yn diffinio meysydd cryfder ymchwil Cymru, gan amlinellu chwe thema allweddol lle'r ydym yn arbennig o gryf: oncoleg fanwl-gywir a mecanistig; imiwno-oncoleg; radiotherapi; treialon clinigol canser; oncoleg gefnogol a lliniarol; ac atal ar sail poblogaeth, canfod cynnar, gofal sylfaenol ac ymchwil i wasanaethau iechyd.

Mae'r Gronfa Datblygu Cysyniadau wedi'i chynllunio i ddarparu llwyfan i ymchwilwyr canser talentog gwblhau gwaith rhagarweiniol, ymgymryd â hyfforddiant, a/neu gynhyrchu data peilot a fydd yn sail i geisiadau cyllido neu gymrodoriaeth mwy o faint. Croesewir ceisiadau ar unrhyw un o chwe thema CReSt, gyda cheisiadau ar draws themâu'n cael eu hannog.

## Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Mae'r Gronfa Datblygu Cysyniadau ar agor i ymgeiswyr a gyflogir gan Sefydliadau Addysg Uwch (SAU), neu staff ymchwil gweithredol a gyflogir gan y GIG neu sefydliadau gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n ymgymryd ag ymchwil sy'n berthnasol i ganser.

## Pa weithgarwch fydd yn cael ei gefnogi?

Bwriad y Gronfa Datblygu Cysyniadau yw canfod unigolion a grwpiau talentog sydd mewn sefyllfa i ymgymryd â gwaith peilot neu hyfforddiant a fydd yn arwain at gyllid dilynol sylweddol mewn ymchwil canser. Gall hyn fod, ond nid yw'n gyfyngedig i gynhyrchu data rhagarweiniol, creu modelau neu ddatblygu sgiliau ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Rhaid i'r gwaith arfaethedig fod yn amlwg yn berthnasol i un neu fwy o themâu CReSt.

Wrth wneud cais, rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt weledigaeth glir ar gyfer yr hyn y maent am ei gyflawni yn ystod y cyfnod ariannu. Rhaid iddynt ddangos sut y bydd yr arian yn hanfodol wrth iddynt ddatblygu eu gwaith, ac yn eu gosod mewn sefyllfa dda i sicrhau ariannu yn y dyfodol.

## Pa gyllid sydd ar gael?

Gan y bydd natur y ceisiadau'n amrywio, disgwylir y bydd angen cyllid cyfyngedig ar rai ond y gallai fod angen mwy ar eraill, a gofynnir i ymgeiswyr gostio'n realistig a chanolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen ar gyfer canlyniad dymunol y gwaith, yn hytrach na thargedu costau i gyrraedd 'nenfwd' penodol. Bydd y panel yn ystyried rhesymoldeb costau wrth iddynt adolygu, ond fel canllaw, byddem yn disgwyl i'r rhan fwyaf o geisiadau fod rhwng £2000 a £10,000.

Mae'r gronfa ar gael i gefnogi gwaith peilot a/neu hyfforddiant, ac felly mae'r costau canlynol yn **gymwys**:

- Nwyddau traul ac adweithyddion
- Gwasanaethau ymchwil
- Eitemau bach o offer, os ydynt yn angenrheidiol ar gyfer y gwaith arfaethedig (ni chaiff ceisiadau am gyllid ar gyfer offer yn unig eu hystyried)
- Mynediad at samplau biofanc
- Mynediad at SAIL neu gronfeydd data eraill
- Costau ymgynghori (e.e. i sicrhau arbenigedd i lywio ymchwil drosi: costau cyfreithiol/patent; cyngor MRHA; adroddiadau marchnad; dadansoddiad economaidd iechyd)
- Costau teithio/rhwydweithio (caiff y ceisiadau hyn eu hasesu'n unigol i sicrhau bod cyfiawnhad digonol dros y daith)
- Cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau meithrin rhwydweithiau
- Costau cynnwys cleifion a'r cyhoedd (PPI)

Ni fydd y cyllid hwn yn talu am y costau **anghymwys** canlynol:

- Costau cyflog
- Costau ystadau neu gyfleusterau
- Unrhyw gostau sy'n ymwneud ag ymchwil anifeiliaid
- Unrhyw fath o ffioedd dysgu (e.e. ffioedd MD/PhD)

Os nad yw ymgeiswyr yn siŵr a fyddai eu gofyniad ariannu arfaethedig yn dderbyniol, fe'u cynghorir i gysylltu â wcrc@caerdydd.ac.uk ymhell cyn y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio.

**Noder y bydd yn rhaid gwario'r arian erbyn mis Chwefror 2027 fan bellaf.**

## Allbynnau a chanlyniadau gofynnol

Ar ddiwedd y cyfnod ariannu, bydd deiliaid dyfarniadau'n cwblhau adroddiad terfynol i WCRC gyda manylion unrhyw allbynnau/canlyniadau sy'n deillio o'r ariannu. Disgwylir hefyd y byddant yn parhau i adrodd i WCRC am gyfnod o 2 flynedd ar ôl cwblhau'r ariannu, er mwyn i ni allu casglu dyfarniadau/cyhoeddiadau yn y dyfodol sy'n dilyn ymlaen o'r gwaith hwn. Mae hyn yn bwysig i ddangos effaith y cynllun a gallu WCRC i sicrhau bod cyfleoedd ar gael yn y dyfodol.

Mae WCRC hefyd yn disgwyl i ymgeiswyr ddiffinio eu hallbynnau eu hunain sy'n berthnasol i'r prosiect, megis (ond heb fod yn gyfyngedig i): cynhyrchu gwaith peilot; creu data rhagarweiniol; datblygu modelau newydd; caffael sgiliau newydd; cyflwyno ceisiadau am gyllid; cyflwyno gwaith mewn cynadleddau; a chyhoeddi gwaith mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.

## Y broses ddethol

Caiff pob cais ei adolygu gan ein panel, a fydd yn adolygu ac yn sgorio pob cais yn unigol, a bydd y sgorau cyfunol yn llywio'r rhestr fer.
Caiff pob ymgeisydd ar y rhestr fer wahoddiad i gyfweliad a gynhelir ar **24eg Tachwedd 2025**. Bydd y cyfweliad ar ddull 'ffau'r ddraig', lle gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno eu cynnig i'r panel. Darperir cyfarwyddiadau manwl yr un pryd â'r gwahoddiad i'r cyfweliad.

Caiff yr ymgeiswyr eu gwerthuso ar sail y meini prawf canlynol:

- Rhinweddau gwyddonol y cynnig
- Hyfywedd y cais – ar sail hyd y cyfnod ariannu y gofynnir amdano, y canlyniadau a'r allbynnau arfaethedig, a graddfa'r gwaith
- Bod yr holl gostau a amlinellir yn y cyfiawnhad cyllidebol yn gymwys ac yn rhesymol, yn unol â chanllawiau'r cais
- Cynlluniau unigol ynghylch sut y bydd y gwaith yn arwain at gyllid pellach yn y dyfodol neu'n creu effaith sylweddol arall
- Bod y cynnig ymchwil yn cyd-fynd â themâu CReSt
- Bod y cymwysterau ymchwil yn gryf ar gyfer cyfnod gyrfa'r unigolyn
- Tystiolaeth fod yr ymgeisydd mewn swydd gyflogedig yn ei sefydliad cartref drwy gydol y cyfnod ariannu

## Amserlenni

**8fed Hydref 2025**
**Ceisiadau'n agor**

**17eg Tachwedd 2025**
**Dyddiad cau ceisiadau**

**24eg Tachwedd 2025**
**Cyfweliadau**

**Rhagfyr 2025 – Mawrth 2026**
**Ariannu'n dechrau**

## How to apply

Er mwyn gwneud cais, rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r dogfennau a ddiffinnir isod:

- Ffurflen gais:
  - Rhaid cwblhau'r ffurflen gais yn llawn. Gall ymgeiswyr lawrlwytho'r ffurflen gais o **yma**.

- CV - Rhaid i CV yr ymgeisydd fod yn:
  - ·Ddim mwy na 2 dudalen A4
  - ·Cynnwys pob cymhwyster academaidd
  - ·Cynnwys cyflogaeth gyfredol
  - ·Cynnwys unrhyw wobrau neu ysgoloriaethau a ddyfarnwyd i'r ymgeisydd
  - Cynnwys rhestr o unrhyw gyhoeddiadau y mae'r ymgeisydd yn awdur a enwir arnynt

# Sut i gyflwyno

Ar cwblhau'r cais, dylech ei gyflwyno drwy ebost:

**I:** wcrc@caerdydd.ac.uk
**Dyddiad cau:** 17eg Tachwedd 2025 (hanner dydd)
**Llinell pwnc:** Cais i Gronfa Datblygu Cysyniadau WCRC
**Atodiadau:** Ffurflen gais a CV wedi'u cwblhau

Sylwer: ni dderbynnir ceisiadau newydd a/neu ddiweddariadau i geisiadau ar ôl y dyddiad cau. Os yw ymgeisydd yn dymuno tynnu'r cais yn ôl am unrhyw reswm, dylai gysylltu â WCRC ar y cyfeiriad ebost isod.

Croesewir ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg, ac ac ni chaiff y naill iaith ei hystyried yn fwy ffafriol na'r llall.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o arweiniad, cysylltwch â wcrc@caerdydd.ac.uk gan nodi 'Cronfa Datblygu Cysyniadau' yn y llinell bwnc.

Canolfan Ymchwil Canser Cymru | Wales Cancer Research Centre